**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 8 Ionawr 2024 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | J P Curtice | A Davis |
| J W Jones | R D Lewis | W G Lewis |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Craig Davies | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Adrian Nagorski | Paragyfreithiwr |
| Barrie Gilbert | Uwch-swyddog Trafnidiaeth |
| Catherine Watkins | Cydlynydd Panel a Swyddog Trafnidiaeth Arweinol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Simon Pardoe | Coleg Gŵyr Abertawe |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J A Hale

---

**29 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023 - 2024.**

**Penderfynwyd** y dylid ethol y Cynghorydd J P Curtice yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023-2024.

**(Bu'r Cynghorydd J P Curtice yn llywyddu)**

**30 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023 - 2024.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd W G Lewis yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023-2024.

**31 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 32 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau a gynhaliwyd ar 22 Medi 2022 fel cofnod cywir.

## 33 Dinas a Sir Abertawe - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Nodwyd Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Dinas a Sir Abertawe.

## 34 Llywodraeth Cymru - Teithio gan Dysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol.

Nodwyd Teithio gan Ddysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru.

## 35 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 36 Apêl Cludiant i'r Ysgol.

Clywodd y Pwyllgor apêl gan riant y disgybl a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd yr apêl yn erbyn penderfyniad yr adran mewn perthynas â'r hawl am gludiant am ddim o'r cyfeiriad cartref i Goleg Gŵyr Abertawe.

Yna cyflwynodd rhieni’r disgybl a'u cynrychiolydd cyfreithiol sylwadau llafar i’r Pwyllgor i gefnogi eu cyflwyniadau ysgrifenedig ac amlinellwyd amgylchiadau penodol eu hapêl mewn perthynas â’r plentyn a’i amgylchiadau a’i amodau personol.

Cyfeiriwyd at y dystiolaeth a gyflwynwyd yn flaenorol a chyfeiriwyd at y dogfennau ychwanegol a gyflwynwyd y diwrnod cyn y cyfarfod.

Gwnaeth swyddogion yr adrannau Addysg a Thrafnidiaeth sylwadau llafar hefyd i gefnogi eu cyflwyniadau ysgrifenedig, fel y gwnaeth y swyddog o Goleg Gŵyr Abertawe.

Amlinellwyd y materion ynghylch y polisi a oedd yn ymwneud â'r pellter o'r eiddo i'r ysgol, y llwybrau cerdded/bws sydd ar gael ac argaeledd rhieni i gludo'r plentyn i'r ysgol ac amgylchiadau teuluol ychwanegol y manylwyd arnynt gan y swyddogion i'r pwyllgor.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau amrywiol i'r apelydd a'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig a wnaed gan y rhiant yn llawn.

**Penderfynwyd:** -

1) Cadarnhau'r apêl ar ran y disgybl a amlinellwyd yn yr adroddiad gan nad oedd y pwyllgor yn teimlo bod amgylchiadau eithriadol i'r achos.
2) Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Addysg yn cydweithio i ddod o hyd i'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o gludo'r disgybl ac aelod arall o'r teulu i'w sefydliad addysg presennol.
3) Er lles pennaf y plentyn, bydd yn parhau yn ei sefydliad addysgol presennol.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.10 am

**Cadeirydd**